| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **18 Gorffennaf 2013** |
| TEITL: | **Cofrestr o Adroddiadau Archwilio Allanol** |
| PWRPAS / ARGYMHELLIAD: | **Cyflwyno'r gofrestr er ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio** |
| AWDUR: | **Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Dyfed Edwards** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Un o ofynion Mesur Llywodraeth Leol Cymru yw bod pob adroddiad archwilio allanol i ddod i sylw'r Pwyllgor Archwilio gyda'r Pwyllgor yn cymeradwyo buddion gweithredu'r argymhellion a nodir gan yr archwilwyr allanol. Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor Archwilio i gadw trosolwg ar weithredu argymhellion yr adroddiadau a rhoi crynodeb byr i'r Cabinet.

1.2 Mae'r canlynol yn enghreifftiau o adroddiadau archwilio allanol:

Adroddiadau ESTYN, CyMAL, Archifau Cenedlaethol
Adroddiadau gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Adroddiadau Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru
Adroddiadau Achlysurol Swyddfa Archwilio neu gan gyrff archwilio eraill

1.3 Gall adroddiadau fod yn llwyr berthnasol i Wynedd neu yn adroddiadau Cenedlaethol sydd gyda chyfeiriad ynddynt at Gyngor Gwynedd

1.4 Yn ychwanegol at hyn, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi gofyn inni gadw cofrestr gorfforaethol o adroddiadau archwilio allanol, a'i chyflwyno i'r Pwyllgor bob chwe mis.

1.5 Cyflwynir i'w ystyried Gofrestr o Adroddiadau Archwilwyr Allanol ar wasanaethau'r Cyngor ers Ionawr 2010 (Atodiad 1) - mae'n gyfuniad o adroddiadau blynyddol, adroddiadau achlysurol ac adroddiadau cenedlaethol ble cyfeirir at Gyngor Gwynedd.

1.6 Mae'r llinellau sydd wedi eu lliwio mewn cefndir melyn yn dangos yr archwiliadau newydd sydd wedi dod i'n sylw ers cyflwyno'r gofrestr i'r Pwyllgor Archwilio ar 14 Chwefror 2013.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi cynnwys y Gofrestr o Adroddiadau Archwilio Allanol.